

2014 Rhif 161 (Cy. 22)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cylchfan Halton i Gylchfan Whitehurst, Y Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014

Gwnaed 27 Ionawr 2014

Yn dod i rym 3 Chwefror 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o’r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Chwefror 2014 a’i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cylchfan Halton i Gylchfan Whitehurst, Y Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 3 Chwefror 2014 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o’r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw’r darn o’r gefnffordd i’r gogledd o’r Waun ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy’n ymestyn o ochr orllewinol Cylchfan Halton hyd at ochr ddwyreiniol Cylchfan Whitehurst.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

27 Ionawr 2014

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.